nmc
Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

# Y gofrestr NMC Cymru

**1 Ebrill 2022–
31 Mawrth 2023**



# Maint ein cofrestr barhaol yng Nghymru ar 31 Mawrth 2023

**Rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023, tyfodd cyfanswm y nifer o nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt â chyfeiriadau cofrestredig yng Nghymru o 38,268 i 39,219.**

**951**
**(2.5%)**




Tyfodd cyfanswm nifer y **nyrsys** yng Nghymru o 36,045 i **36,917**.

**2.4%**
(+872)



Tyfodd y nifer o **fydwragedd** yng Nghymru ychydig bach o 1,817 i **1,904**.

**4.8%**
(+87)



Gostyngodd cyfanswm y nifer o **gofrestriadau deuol** (nyrs a bydwraig) yng Nghymru o 392 i **369**.

**-5.9%**
(-23)




Cynyddodd cyfanswm y nifer o **nyrsys cyswllt*** yng Nghymru o 14 i **29**.

**107%**
(+15)

*Cafodd y rôl nyrs gyswllt ei chyflwyno yn 2019, yn Lloegr yn unig. Mae gan gyfran fach o nyrsys cyswllt cofrestredig gyfeiriadau yng Nghymru.

## Ffigur 1

Cyfanswm nifer y bobl ar y gofrestr barhaol â chyfeiriad yng Nghymru.







# Ymuno â'r gofrestr barhaol

Mae'r nifer o bobl yng Nghymru sy'n ymuno â'n cofrestr barhaol am y tro cyntaf wedi cynyddu'n gyson ers Mawrth 2018. Rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023, ymunodd 1,666 o bobl. Mae hynny'n 66 (4.1 y cant) yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

## Ffigur 2

Pobl â chyfeiriad yng Nghymru sy'n ymuno â'r gofrestr barhaol am y tro cyntaf.





Nid yw data ymunwyr yn cynnwys y rheini sy'n ailymuno â'r gofrestr ar ôl gadael o'r blaen. Hefyd, mae cyfanswm y nifer ar y gofrestr o un adeg, tra bod data'r ymunwyr ac ymadawyr yn swm y gweithgaredd dros ddeuddeng mis. Felly, ni fydd y ffigurau hyn yn adio yn union.

# Gadael y gofrestr barhaol

Gostyngodd y nifer o bobl yng Nghymru a adawodd y gofrestr barhaol i 1,370. Mae hynny'n 31 yn llai o ymadawyr (-2.2 y cant) nac yn y flwyddyn flaenorol.

**Ffigur 3**

Pobl â chyfeiriad yng Nghymru sy'n gadael y gofrestr barhaol






# Gweithwyr proffesiynol o'r DU

**Yn y flwyddyn ddiwethaf yng Nghymru, tyfodd y nifer o weithwyr proffesiynol ar ein cofrestr barhaol oedd â'u cofrestriad cyntaf yn y DU o 34,781 i 35,394.**

**613 (1.8%)**

**534 yn ychwanegol o nyrsys**

**87 yn ychwanegol o fydwragedd**

**23 yn llai o rai â chofrestriad deuol**

**15 yn ychwanegol o nyrsys cyswllt**

## Pobl o'r DU yn ymuno ac yn gadael y cofrestr barhaol

Ers Mawrth 2018, mae cynnydd cyson wedi bod yn y nifer o bobl yng Nghymru sy'n ymuno â'r gofrestr barhaol o'r DU. Rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023, ymunodd **1,472** o bobl o'r DU â'n cofrestr, i fyny o 1,412 yn 2021-2022.

Arhosodd y nifer o bobl o'r DU a adawodd y gofrestr barhaol yng Nghymru yn gymharol debyg i'r flwyddyn flaenorol. Yn 2022–2023, gadawodd **1,305** o bobl ein cofrestr.

**Ymuno â'r gofrestr**
**4.2%** (+60)

**Gadael y gofrestr**
**-2.5%** (-33)

# Gweithwyr proffesiynol rhyngwladol

**Mae'r nifer o bobl ar y gofrestr barhaol yng Nghymru a gafodd eu cofrestru yn y lle cyntaf y tu allan i'r DU wedi cynyddu o 3,487 i 3,825 yn y flwyddyn ddiwethaf.**

**338**
**(9.7%)**

O'r rheini, gostyngodd y nifer o weithwyr proffesiynol o wledydd UE/AEE o ddau o 624 i **622**.

**Cofrestriad cychwynnol yn yr UE/AEE**
**0.3%** (-2)

Fodd bynnag, cynyddodd y nifer o bobl a gofrestrodd yn y lle cyntaf y tu allan i'r UE/AEE yn arwyddoacol o 2,863 i **3,203**.

**Cofrestriad cychwynnol y tu allan i'r UE/AEE**
**11.9%** (+340)


## 338 yn ychwanegol o nyrsys

## Dim newid yn nifer y bydwragedd rhyngwladol

## Dim newid yn nifer yr unigolion cofrestredig deuol rhyngwladol

## Ffigur 4

Cyfanswm nifer y bobl ar y gofrestr barhaol yng Nghymru trwy gofrestriad cychwynnol o'r DU, UE a'r tu allan i'r AEE.





Ynysoedd y Philipinau yw'r wlad hyfforddi amlaf y tu allan i'r DU. Bellach mae **1,306** o weithwyr proffesiynol yng Nghymru a gafodd eu haddysg yn Ynysoedd y Philipinau. Fodd bynnag, cynyddodd nifer y gweithwyr proffesiynol a addysgwyd yn India hefyd o 20%.

**3.2%**
(+41)

## Ffigur 5

Cyfanswm nifer y bobl ar y gofrestr barhaol yng Nghymru fesul gwlad hyfforddiant y tu allan i'r DU (tair gwlad uchaf).



# Pobl o'r tu allan i'r DU yn ymuno ac yn gadael y gofrestr barhaol

Ers mis Mawrth 2018, mae cynnydd wedi bod yn nifer y bobl sy'n ymuno â'r gofrestr barhaol o'r tu allan i'r DU yng Nghymru. Rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023, ymunodd **194** o bobl, cynnydd bach o 188 yn 2021-2022.


Arhosodd nifer y bobl o'r tu allan i'r DU a oedd yn gadael y gofrestr barhaol yng Nghymru yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Yn 2022-2023, gadawodd **57** o bobl ein cofrestr.

**Ymuno â'r gofrestr**
**3.2%** (+6)

**Gadael y gofrestr**
**0%** (0)


## Ffigur 6

Cyfanswm nifer y bobl â chyfeiriad yng Nghymru sy'n ymuno â'r gofrestr barhaol am y tro cyntaf wrth wlad hyfforddiant y ru allan i'r DU ers Mawrth 2018 (tair gwlad uchaf).



## Ffigur 7

Cyfanswm nifer y bobl â chyfeiriad yng Nghymru sy’n gadael y gofrestr barhaol am y tro cyntaf wrth wlad hyfforddiant y tu allan i’r DU ers Mawrth 2018 (tair gwlad uchaf).






# Proffil o’r gofrestr barhaol yng Nghymru

## Oedran

Mae’r nifer o bobl **21 to 40** oed ar ein cofrestr barhaol yng Nghymru wedi cynyddu’n gyson ers Mawrth 2018. Mae **14,729** o bobl yn awr yn y grŵp oedran hwn, i fyny o 14,002 llynedd.

**21 to 40**
**5.2%** (+727)

Yn y cyfamser, gostyngodd y rheini yn y grŵp oedran **41 to 55** o 15,160 i **14,929**.

**41 to 55**
**-1.5%** (-231)

Cynyddodd y nifer o bobl **56 oed a throsodd** o 4.7 y cant yn 2022-2023, o 9,106 i **9,561**.

**56 oed a throsodd**
**5.0%** (+455)

## Rhywedd



**90.3%**
o bobl ar ein cofrestr barhaol yng Nghymru yn uniaethu’n fenywaidd.



**9.7%**
o bobl ar ein cofrestr barhaol yng Nghymru yn uniaethu’n wrywaidd.

Ers Mawrth 2018, mae newidiadau ffracsiynol yn unig wedi bod yn y rhaniad rhywiau hwn. Mae hyn yn gwahaniaethu o adroddiad y DU, lle mae’r nifer o o weithwyr proffesiynol gwrywaidd yn parhau i dyfu , gan gynyddu o 4.9 y cant yn y flwyddyn ddiwethaf.

O’r **39,219** o weithwyr proffesiynol ar y gofrestr barhaol yng Nghymru, dywedodd **237** nad yw eu rhywedd yn cydweddu â’u rhyw ar enedigaeth, i fyny o 207 llynedd.

# Ethnigrwydd

O’r 39,219 o weithwyr proffesiynol ar ein cofrestr yng Nghymru, mae **34,097** yn Wyn, i fyny o 33,592 llynedd.


Mae **4,311** o gefndiroedd Du ac Ethnig Leiafrifol, i fyny o 3,916 yn y flwyddyn flaenorol.

**Wyn**
**1.5%** (+505)

**Du ac Ethnig Leiafrifol**
**10.1%** (+395)

### Ffigur 8

Proffil ethnigrwydd y gofrestr barhaol.



# Hyd amser ar y gofrestr

**Yng Nghymru, tyfodd y nifer o weithwyr proffesiynol sydd wedi bod ar ein cofrestr am bum mlynedd neu lai ers eu cofrestriad cychwynnol o 7,236 i 7,899 dros y flwyddyn ddiwethaf.**

**663**
**(9.2%)**

Yn y cyfamser, cynyddodd nifer y rheini ar y gofrestr rhwng pump a 10 mlynedd o 5,453 i **5,699**.

**Pump a 10 mlynedd**
**4.5%** (+246)

Tyfodd y grŵp mwyaf ar y gofrestr rhwng **10 a 30 mlynedd** ychydig o 16,831 i **16,903**.

**10 a 30 mlynedd**
**0.4%** (+72)

Tyfodd y nifer o bobl ar y gofrestr am **30 mlynedd neu ragor,** ychydig o 8,718 i **8,748**.

**30 mylneed neu ragor**
**-0.3%** (-30)



Nid yw hyn yn dangos gwasanaeth parhaus a gall fod bylchau wedi bod yng nghofrestriad pobl rhwng cofrestriad cychwynnol a chofrestriad presennol.

# Meysydd ymarfer nyrsio

**Mae pedwar maes o ymarfer nyrsio. Maen nhw'n cwmpasu oedolion, plant, anableddau dysgu, a nyrsio iechyd meddwl.**

Cynyddodd y nifer o weithwyr proffesiynol cofrestredig ar draws pob un o'r pedwar maes ymarfer yng Nghymru. Cododd y nifer o nyrsys oedolion o 28,376 i **28,906**.

Cododd y nifer o nyrsys plant o 2,765 i **2,901**

Cynyddodd y nifer o nyrsys iechyd meddwl hefyd o 5,305 i **5,436**

Cynyddodd y nifer o nyrsys anabledd dysgu ychydig o 988 i **993**.

Nid yw'r data hyn yn dweud wrthym pa rolau mae nyrsys yn gweithio ynddynt ar hyn o bryd. Gall nyrsys ddal mwy nac un cymhwyster ac nid ydynt yn gweithio yn y meysydd y maen nhw wedi'u cofrestru ynddynt.

**Nyrsys oedolion**
**1.9%** (+530)

**Nyrsys plant**
**4.9%** (+136)

**Nyrsys iechyd meddwl**
**2.5%** (+131)

**Nyrsys anableddau dysgu**
**0.5%** (+5)



# SCPHN a chymwysterau ymarfer arbenigol

**Gall nyrs neu fydwraig feddu ar gymwysterau ychwanegol lluosog. Mae nyrsio arbenigol cymunedol ac iechyd cyhoeddus (SCPHN) yn rhan benodol o'n cofrestr. Mae rhywun ar ein cofrestr yn gallu dod yn SCPHN trwy gymryd rhaglen wedi'i chymerdawyo a chyflawni'r safonau cywir.**

Mae 'Ymarferydd arbenigol yn cyfeirio at rywun sydd â chymhwyster ymarfer arbenigol (SPQ). Mae SPQau yn gymwysterau ôl-gofrestru sy'n ymwneud â meysydd ymarfer penodol. Fodd bynnag, nid yw ennill SPQ yn newid y maes mae unigolyn wedi'i gofrestru ynddo.

Mae cyfanswm nifer y Nyrsys Cymunedol ac Iechyd Cyhoeddus Arbenigol cofrestredig sydd wedi'u cofrestru â chyfeiriad yng Nghymru wedi cynyddu ychydig. Ym mis Mawrth 2018, roedd 1,707 o weithwyr proffesiynol SCPHN. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae hyn wedi cynyddu o 1,780 i **1,800** sef cynnydd o 1.1%.

Cynyddodd cyfanswm nifer y gweithwyr proffesiynol gyda chymwysterau arbennig/cofnodadwy o 5,702 i **5,865** yn y flwyddyn ddiweddaf.

O fewn cyfanswm nifer y gweithwyr proffesiynol sydd ag un neu fwy o gymwysterau arbennig/cofnodadwy, mae nifer y bobl sydd â chymhwyster Nyrs Annibynnol/Rhagnodwr Atodol wedi cynyddu'n sylweddol ers mis Mawrth 2018 o 1,459 i **2,218**.

**Nyrsys Cymunedol ac Iechyd Cyhoeddus Arbenigol**
**1.1%** (+20)

**Gweithwyr proffesiynol ag un neu fwy o gymwysterau arbennig/cofnodadwy**
**2.9%** (+163)

**Gweithwyr proffesiynol gyda chymhwyster Nyrs Annibynnol/Rhagnodi Atodol**
**52.0%** (+759)

# Pam y gadawodd pobl yng Nghymru?

**Ers 2017 rydym wedi cynnal arolwg blynyddol o weithwyr proffesiynol a adawodd ein cofrestr, i ofyn iddynt pam y gwnaethant adael. Fe naethom gynnal ein harolwg diweddaraf trwy gydol mis Mawrth 2023. Isod mae crynodeb o'r canfyddiadau ar gyfer Cymru. Gallwch ddarllen yr e [adroddiad llawn ar ein gwefan.]()**

Gadawodd **26,618** o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ein cofrestr barhaol rhwng Ionawr 2022 a Rhagfyr 2022. Ym mis Mawrth 2023, fe wnaethom wahoddwyd sampl o **21,975** o'r bobl hyn i gwblhau ein harolwg ymadawyr. Ymatebodd cyfanswm o **7,226** o bobl, gan gynnwys **425** o Gymru.

Eleni rydym wedi adnewyddu ein hymagwedd arolwg a chwestiynau i sicrhau ei fod yn berthnasol i ymadawyr diweddar a'r blynyddoedd i ddod. Oherwydd hyn, ni ddylid cymharu canfyddiadau o arolwg ymadawyr 2023 yn uniongyrchol â rhai'r blynyddoedd blaenorol.

Roedd yr arolwg newydd o ymadawyr yn arolwg 10 munud ar-lein a oedd yn ceisio deall;

- **Pam y gadawodd gweithwyr proffesiynol gofrestr yr NMC**
- **Y cyd-destun ehangach ynghylch penderfyniadau unigolion i adael**
- **Os yw ffactorau cyflogaeth neu ddemograffig yn effeithio ar resymau dros adael**

Rhoddwyd 19 opsiwn i'r ymatebwyr o ran eu rhesymau dros adael. O'r rhain, dewiswyd hyd at bum dewis, gan gynnwys un prif reswm dros adael.

Mae'r tri rheswm a ddewiswyd amlaf dros adael y gofrestr yn wahanol i flynyddoedd blaenorol yn rhannol oherwydd yr atebion i'r arolwg wedi'u diweddaru. Roedd categorïau newydd 'Iechyd corfforol a meddyliol' a 'Straen sylweddol neu orludded' yn ddau o'r tri phrif reswm a nodwyd gan ymatebwyr, dros ymddeol.

Mae categori newydd arall, 'Diffyg cefnogaeth gan gydweithwyr ac uwch aelodau o staff' hefyd yn y 10 prif reswm pam y gadawodd nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio eu proffesiwn. Gwelwyd bod hyn yn rhan o ddiwylliant gwael yn y gweithle, gan wneud heriau staffio, llwyth gwaith ac ansawdd gofal hyd yn oed yn fwy anodd.

## Tabl 1

Beth oedd eich prif reswm dros adael Cofrestr yr NMC (10 ymateb a ddewiswyd amlaf): ymatebwyr yng Nghymru.

| Sgôr | Rheswm dros adael | Sgôr y DU |
|---|---|---|
| **1** | Ymddeol | = |
| **2** | Fy iechyd corfforol neu feddyliol | = |
| **3** | Straen sylweddol neu orludded | = |
| **4** | Ansawdd y gofal a ddarperir i aelodau'r cyhoedd a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau | 9 |
| **5** | Newid mewn amgylchiadau personol | 4 |
| **6** | Diffyg cefnogaeth gan gydweithwyr neu uwch aelodau o staff | 8 |
| **7** | Arall | = |
| **8** | Profiadau o fwlio, aflonyddu neu wahaniaethu | 10 |
| **9** | Llwyth gwaith | 11 |
| **10** | Pryder ynghylch bodloni'r gofynion ail-ddilysu | 6 |

Mae **57%** o ymadawyr o Gymru wedi gadael y gofrestr yn gynt na'r disgwyl, sy'n fwy nag arolwg y DU (**52%**). Rhestrodd ymadawyr o Gymru hefyd 'Ymddeoliad', 'Fy iechyd corfforol neu feddyliol' a 'Straen sylweddol neu orludded' fel eu tri phrif reswm dros adael y gofrestr. Fodd bynnag, roedd 'Ansawdd y gofal a ddarperir i aelodau'r cyhoedd a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau' yn uwch yn y pedwerydd safle, ac mae'r ymateb hwn yn nawfed yn arolwg y DU gyfan.

# Cofrestr dros dro Covid-19 yng Nghymru

**Ym Mawrth 2020 fe wnaethom sefydlu cofrestr dros dro Covid-19 i gynorthwyo ymateb y DU i'r pandemig coronafeirws. Fe wnaethom wahodd rhai nyrsys a bydwragedd a oedd wedi gadael ein cofrestr barhaol, yn ogystal â rhai ymgeiswyr tramor i ymuno.**

Yn unol â chynllun 'Byw â Covid' y llywodraeth, fe wnaethom roi'r gorau i dderbyn pobl newydd ar y gofrestr dros dro o 24 Mawrth 2022.

Ym Medi 2022, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol y byddai cofrestru dros dro yn aros yn agored am ddwy flynedd ychwanegol. Rydym felly'n caniatáu i weithwyr proffesiynol barhau â chofrestru dros dro i gynorthwyo'r ymateb i a'r adferiad o Covid-19.

Ym mis Mawrth 2023, fe wnaethom gyflwyno newidiadau i gynnal y gofrestr dros dro yn ddiogel. Mae'r rhain yn cynnwys gosod amodau ymarfer neu derfynu cofrestriad dros dro pobl, yn dibynnu ar ba bryd y gwnaethon nhw adael y gofrestr barhaol ac a ydynt wedi bod yn ymarfer.

## Maint y gofrestr dros dro

**-649**
**(-84.2%)**

Gostyngodd cyfanswm y nifer o nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt ar gofrestr dros dro Covid-19 â chyfeiriad yng Nghymru o 771 ym Mawrth 2022 i **122** ym Mawrth 2023, gostyngiad o **84.2** y cant.

O Fawrth 2023, mae **110** o nyrsys, **naw** bydwraig a **tri** o bobl â chofrestriadau deuol.

Mae'r nifer o bobl â chyfeiriad yng Nghymru yn gwneud **6.1** y cant o gofrestr dros dro Covid-19.

# Pwy ydym ni

**Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 788,000 o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.**

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo addysg uchel a safonau proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bach iawn o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn gweithredu pan fo angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau ac arweiniad sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaoedd pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarferol a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein hamlygrwydd fel bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u grymuso i lunio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i godi llais dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.

nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

23 Portland Place,
London W1B 1PZ
+44 20 7637 7181
www.nmc.org.uk
@nmcnews @nmcuk

Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth i Loegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon
Elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).